

Adroddiad Blynyddol gan Gyngorydd 2014/15

Hwn yw'r adroddiad gan y Cyngorydd isod ar ei gweithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2015. Darperir yr adroddiad er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid i unrhyw bwrpas arall. Safbwyntiau'r Cyngorydd unigol yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid ydynt, o angenrheidrwydd, yn adlewyrchu barn Cyngor Sir Ynys Môn.

Cyngorydd: Llinos Medi
Grwp: Plaid Cymru

Ward: Talybolion

1 - Rôl a Chyfrifoldebau

Rhwng Ebrill 2014 a Mawrth 2015, eisteddais ar y prif bwyllgorau / is-bwyllgorau canlynol:	¹ Ffigyrau Presenoldeb
Cyngor	10 (91%)
Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol	13 (100%)
Cyd-Bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig (Is-Gadeirydd)	1 (33%)
Pwyllgor Apeliadau (mynychu ar sail rota)	6
Mae'r ystadegau a ddarperir yn berthnasol yn unig i'r pwyllgorau a restrir yn y tabl hwn. Nid yw'r ystadegau'n cynnwys presenoldeb mewn cyfarfodydd eraill sy'n ymwneud â gwaith y Cyngor Sir.	
Gall presenoldeb amrywio oherwydd natur gwaith a chyfrifoldebau aelodau - fel ddeilydd portffolio, cadeirydd pwyllgor neu fel cynrychiolydd y Cyngor ar gyrrff allanol, er enghraifft.	

Rwyf yn aelod o Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn (wedi mynychu 4 cyfarfod) a'r Pwyllgor Grantiau Cyffredinol.

Rwy'n cynrychioli'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar Fwrdd Trawsnewid Addysg.

Rwy'n cynrychioli'r Cyngor ar y cyrff allanol canlynol:	Nifer y cyfarfodydd a drefnwyd	Nifer a fynychwyd
Grwp Cyswllt Prosiect Niwclear Horizon	3	0
Grwp Rhanddeiliaid y Safle Wylfa	2	0

2 - Gweithgareddau yn yr Etholaeth

Mae gwaith Etholaeth eto eleni wedi amrywio yn aruthrol. 'Rwyf wedi cael cyfnod prysur yn sefydlu Grwp Cymunedol Ffrindiau Bodedern er mwyn gwella adnoddau chwarae parc Bododern.

¹ Darparwyd y ffigyrau presenoldeb gan Gyngor Sir Ynys Môn.

Rwyf wedi fy ethol yn is-gadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Gynradd Llanfechell. 'Rwyf wedi mynychu amryw o weithgareddau cymunedol yn cynnwys Ffair Mechell, boreau coffi, cyngherddau, gwasanaethau nadolig ac yn y blaen.

Mae gwaith unigolion yn y ward wedi amrwyio yn arw, rwy'n falch o'r hyn rwyf wedi gallu cyflawni ar ran y bobl sydd wedi dod ar fy ngofyn, gyda chydweithrediad swyddogion y Cyngor.

Rwyf wedi mynychu Ysgol Uwchradd Bodedrn ddwy waith i drafod fy ngwaith fel Cynghorydd Sir a thrafodaeth cyffredinol ynglŷn a gwleidyddiaeth lleol a chenedlaethol.

3 - Mentrau a Gweithgareddau Arbennig

Rwyf wedi gwneud amryw o geisiadau grantiau ar gyfer parc chwarae Bodedern ac wedi bod yn ffodus o dderbyn rhai ohonynt - mae gwaith bellach wedi cychwyn i wella'r cyfleusterau chwarae. Rwyf wedi derbyn grant Heddlu Gogledd Cymru i gynnal gweithgareddau chwaraeon o'r enw Egni Edern i blant a phobl ifanc. Rwyf wedi fy newis fel y Pencampwr Ieuencid.

4 - Dysgu a Datblygu

Rwyf wedi mynychu'r mentrau dysgu a datblygu canlynol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (gwybodaeth wedi'i ddarparu gan Gyngor Sir Ynys Môn):

Gweddarlledu	Mai 2014
Diogelu	Mai 2014
Gweddarlledu	Mehefin 2014
Seminar ar Ddiwygio Llywodraeth Leol	Medi 2014
Ychwanegu Gwerth i Sgriwtini	Medi 2014
Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014	Tachwedd 2014
Seminar ar y Polisi Gosod Tai	Ionawr 2015
Llywodraethu Gwybodaeth	Mawrth 2015

5 – Gweithgareddau a Materion Eraill

Rwyf yn ffodus iawn o deulu cefnogol o fy ngwaith ac angen diolch i Iwan, Eiliw a Twm am eu cefnogaeth.

Y Cynghorydd Llinos Medi Huws

Ebrill 2015